O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2014 Rhif 460 (Cy. 53)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 (1986/975) ("Rheoliadau 1986"), Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 (1997/818) ("Rheoliadau 1997") a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 (2007/1104 (Cy.116)) ("Rheoliadau 2007").

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau 1986 o ganlyniad i gyflwyno'r credyd cynhwysol gan Ddeddf Diwygio Lles 2012 (2012 p.5) ("Deddf 2012").

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau 1997 o ganlyniad i gyflwyno'r credyd cynhwysol gan Ddeddf 2012.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau 2007 o ganlyniad i gyflwyno'r credyd cynhwysol gan Ddeddf 2012.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 460 (Cy. 53)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Mawrth 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *4 Mawrth 2014* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129, 130, 131, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 1986" ("*the 1986 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**);

ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**3**); ac

ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1986/975 fel y'i diwygiwyd.
(**3**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**1**).

**Diwygio Rheoliadau 1986**

**3.** Yn rheoliad 13(2)(q) o Reoliadau 1986, yn lle “29 April 2013” rhodder “1 April 2014” ac yn lle “31 March 2014” rhodder “31 March 2015”.

**Diwygio Rheoliadau 1997**

**4.** Yn rheoliad 8(3)(q) o Reoliadau 1997, yn lle “29 April 2013” rhodder “1 April 2014” ac yn lle “31 March 2014” rhodder “31 March 2015”.

**Diwygio Rheoliadau 2007**

**5.** Yn rheoliad 5(1)(aa) o Reoliadau 2007 yn lle “29 Ebrill 2013” rhodder “1 Ebrill 2014” ac yn lle “31 March 2014” rhodder “31 Mawrth 2015”.

*Mark Drakeford*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

1 Mawrth 2014

(**1**) O.S. 2007/1104 (Cy.116) fel y’i diwygiwyd.